

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(2), (3)(a) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2021 Rhif (Cy. )**

**CYDRADDOLDEB, CYMRU**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb  
2010 (Awdurdodau sy'n  
ddarostyngedig i ddyletswydd  
ynghylch Anghydraddoldebau  
Economaidd-gymdeithasol) (Rhif  
2) (Cymru) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn darparu'r rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ("y ddyletswydd"). Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 2(4)(a) o Ddeddf 2010, ychwanegu awdurdod perthnasol at y rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Ystyr "relevant authority" yw awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) y mae ei swyddogaethau'n cyfateb i swyddogaethau awdurdod a bennir am y tro yn is-adran (3) neu y cyfeirir ato yn is-adran (4) o adran 1 o Ddeddf 2010 neu y mae ei swyddogaethau'n debyg i swyddogaethau awdurdod o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn arfer y pŵer yn adran 2(4)(a) o Ddeddf 2010 i ddiwygio adran 1 o'r Ddeddf honno er mwyn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig at y rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(2), (3)(a) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2021 Rhif (Cy. )**

**CYDRADDOLDEB, CYMRU**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb  
2010 (Awdurdodau sy'n  
ddarostyngedig i ddyletswydd  
ynghylch Anghydraddoldebau  
Economaid-gymdeithasol) (Rhif  
2) (Cymru) 2021

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

*3 Rhagfyr 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 2(4)(a) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 209(2), (3)(a) a (6)(2) o'r Ddeddf honno.

- 
- (1) 2010 p. 15. Mae adran 2(4)(a) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn ychwanegu awdurdod perthnasol at y rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 1. Mae "relevant authority" wedi ei ddiffinio yn adran 2(6), a ddiwygiwyd gan baragraff 83(1) a (2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 209(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

## **Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

## **Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010**

2. Yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol), yn is-adran (3A)(1), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“(ba) a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(2);”.

*Enw*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
Dyddiad

---

(1) Mewnosodwyd is-adran (3A) gan O.S. 2021/295 (Cy. 72).  
(2) 2021 dsc 1.